awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Amlinelliad o'r Swydd

Teitl y Swydd:

Cynorthwyydd Caffi
Achlysurol

Sail

Achlysurol

Cyflog:

£12.71 yr awr

Lleoliad:

Caffi Parc Bryngarw

Yn atebol i:

Goruchwyliwr y Caffi

Yn atebol am:

Amherthnasol

Eich Rôl:

Byddwch yn chwarae rhan annatod yn niwrnod ein cwsmeriaid gan mai eich prif rôl chi yw darparu diodydd o ansawdd a sicrhau bod ein cwsmeriaid bob amser yn cael gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.

Byddwch yn arwain trwy esiampl, byddwch yn angerddol am wasanaeth cwsmeriaid a byddwch yn aelod llawn cymhelliant o'r tîm.

Byddwch yn dod yn arbenigwr yn y coffi a'r bwyd a diod yr ydym yn ei gynnig ac yn gweithio mewn amgylchedd lle y byddwch yn ymgysylltu â gwahanol bobl a chwsmeriaid reolaidd bob dydd, gan ei wneud yn lle gwaith bywiog a llawn hwyl.

Yn y rôl byddwch yn:

- Personoli eich gwasanaeth ar gyfer pob cwsmer, rhagweld anghenion cwsmeriaid, a meithrin cysylltiadau gan wneud i bob cwsmer deimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu
- Sicrhau bod pob diod yn cyrraedd y cwsmeriaid mewn modd amserol, mae hyn yn cynnwys cludo diodydd i'r byrddau – wrth fod yn gyson ymwybodol o anghenion gwesteion ac yn gallu ymateb iddynt yn unol â hynny.
- Darparu diodydd ac eitemau / cynhyrchion bwyd o safon, yn gyson ar gyfer pob cwsmer trwy gadw at yr holl safonau ryseitiau a chyflwyno.
- Cadw'n effro, yn gadarnhaol a darparu gwasanaeth amserol i gwsmeriaid, lle mae gwybodaeth ac arbenigedd am fwyd, diodydd ac alergenau yn golygu bod cwsmeriaid bob amser yn cael y lefel orau o wasanaeth.
- Rhoi cyngor, arweiniad ac argymhellion ar gynhyrchion a dewis bwydlen i gwsmeriaid i sicrhau profiad cadarnhaol a bod cwsmeriaid yn dychwelyd.
- Hyderus ac yn gydweithredol gydag agwedd gadarnhaol, bob amser yn ymdrechu am welliant parhaus a bob amser yn gweithio er lles penna'r tîm.
- Rhagweithiol gan sicrhau amgylchedd gwaith glân, hylan a safon uchel bob amser.
- Arwain trwy esiampl, parchu eraill a bod yn ymrwymedig i ddarparu'r lefel uchaf o goffi a diodydd fel bod ein cwsmeriaid eisiau dychwelyd am fwy.
- Ymdrin â chwynion cwsmeriaid yn briodol gyda'r nod o ddatrys problemau ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol y rôl hon yw:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd yn y gwaith effeithio arnynt
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella'ch cymhwysedd o fewn y swydd
- Cynnal a chyfannu ein diben a'n gwerthoedd ym mhopeth yr ydych chi'n ei wneud, gan gadw at a hyrwyddo pedwar gwerth Awen bob amser – Creadigol, Grymusol, Cydweithredol a Theg.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Herio'n weithredol wahaniaethu a stigma yn y gweithle.
- Bod yn gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg.
- Gofalu am eich lles corfforol a seicolegol eich hun lle bynnag y bo modd.
- Cefnogi lles seicolegol a chorfforol ein cydweithwyr/tîm ac annog diwylliant empathig a chynhwysol.
- Bod yn gyfrifol am ein helpu i gyflawni ein huchelgais cynaliadwyedd trwy gyfrannu at leihau eich ôl troed carbon unigol a gweithio tuag at amcanion y sefydliad yn unol â strategaeth cynaliadwyedd Awen.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Awen.

Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau ŕ swydd hon, gallai fod yn rhaid eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

Manyleb y Person

Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Yn arwain trwy esiampl, yn cyflwyno ei hun yn dda, yn broffesiynol a bod ag agwedd gadarnhaol (H)
- Cyfeillgar, a hawddgar, yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm a rhannu arfer gorau (H)
- Yn croesawu newid gydag agwedd gadarnhaol (H)
- Angerddol dros wasanaeth cwsmeriaid rhagorol gyda diddordeb brwd mewn bwyd (H)
- Addasadwy a hyblyg i fodloni gofynion. (H)
- Mwynhau cyd-daro â chwsmeriaid (H)
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol
- Yn dangos agwedd ragweithiol a chadarnhaol wrth ymgorffori gwerthoedd Awen drwyddi draw
- Cyfrannu syniadau ac atebion ac yn gallu eu defnyddio er mwyn gwella.

Cymwysterau, sgiliau, galluoedd a phrofiad:

(NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Sgiliau trefnu rhagorol (H)
- Yn gallu meddwl ar eich traed a gwneud penderfyniadau effeithiol wrth weithio o dan amgylchedd prysur (H)
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol gan gynnwys gwrando gweithredol (H)
- Sgiliau rheoli amser rhagorol i sicrhau bod bwyd yn cael ei weini'n brydlon (H)
- Yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth mewn amgylchedd prysur sy'n dangos agwedd hyderus a hunan-gymhellol (H)
- Gwybodaeth am arferion gweithio diogel a hylendid bwyd
- Cymhwyster Hylendid Bwyd Sylfaenol.
- NVQ mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid neu allu dangos tebyg trwy brofiad
- Gwybodaeth a phrofiad ymarferol o gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac arfer gorau'r diwydiant
- Yn gallu siarad Cymraeg
- Wedi hyfforddi i fod yn Barista neu â phrofiad blaenorol o arlwyo